Drwy e-bost at Benaethiaid Derbyniadau

7 Awst 2020

Annwyl gydweithiwr

Haf 2020 - Cymru

Arweiniodd pandemig COVID-19 at gau ysgolion a cholegau yng Nghymru ym mis Mawrth a chanslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch oedd i fod i gael eu sefyll yn haf 2020.

Wrth i ni ddatblygu'r trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yr haf hwn, rydym wedi aros mewn cysylltiad agos â chyd-reoleiddwyr yn Lloegr (Ofqual) a Gogledd Iwerddon (CCEA Regulation). Mae gan bob gwlad ei pholisi a'i dulliau ei hun ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2020, ond mae pob un ohonom wedi ymrwymo i gynnal safonau, fel bod dysgwyr yn gallu symud ymlaen gyda chymwysterau sydd â'r un gwerth ag unrhyw flwyddyn arall.

Rydym wedi sefydlu dulliau o sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael graddau teg a chredadwy am gymwysterau yr haf hwn. Mae'r dulliau a ddilynir ym mhob awdurdodaeth i gyfrifo graddau'r haf hwn yn debyg; serch hynny, mae cynllun gwahanol rhai cymwysterau yn anorfod yn golygu bod y dulliau hyn yn amrywio. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn sefyll Safon Uwch sydd wedi'u datblygu ar gyfer Cymru - mae'r rhain yn cadw'r berthynas rhwng UG a Safon Uwch.

Fel yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, roedd yn ofynnol i ganolfannau yng Nghymru gyflwyno Gradd Asesu Canolfan (GAC), a threfn restrol, ym mhob pwnc ar gyfer pob dysgwr. Dyma, i bob pwrpas, oedd eu hamcangyfrif o'r radd y byddai'r dysgwr yn fwyaf tebygol o fod wedi'i chyflawni pe bai wedi sefyll yr arholiadau. Fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw broses genedlaethol i sicrhau cysondeb ar draws y graddau hyn, roedd angen dull ystadegol o safoni hefyd.

Rydym wedi gweithio gyda CBAC i ystyried dulliau o safoni. Mae dau brif ddull cyffredinol yn cael eu defnyddio ar draws awdurdodaethau yr haf hwn. Mae penderfyniadau ynghylch pa ddull y dylid ei ddefnyddio ar gyfer pa gymhwyster yng Nghymru yn seiliedig ar yr hyn sy'n defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael.

Gan fod gwahaniaethau mewn dulliau gweithredu rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, roeddem am esbonio'r dull a ddefnyddiwyd i ddyfarnu graddau Safon Uwch, yn ogystal â

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

graddau lefel UG, yng Nghymru yr haf hwn. Rydym yn darparu rhai manylion isod a gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ein canllaw cyhoeddedig.

Safon Uwch – haf 2020

Yng Nghymru, mae'r cymhwyster UG yn cyfrannu 40% o'r marciau asesu i'r Safon Uwch llawn. Mae hyn yn golygu bod tystiolaeth dda iawn o gyrhaeddiad blaenorol o fewn y cymhwyster sydd ar gael, a fyddai wedi cyfrannu at raddau'r dysgwyr a oedd i fod i sefyll Safon Uwch yr haf hwn. Mae'r model a gymeradwywyd gennym i CBAC ei ddefnyddio i safoni graddau Safon Uwch yn defnyddio'r data UG hwn. Bydd CBAC yn cyfrifo'r radd Safon Uwch fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi ei chael yn seiliedig ar eu perfformiad yn yr unedau UG ynghyd â pherfformiad uned U2 hanesyddol. Mae'r dull hwn yn debyg i'r dull a ddefnyddir pan fydd dysgwyr yn absennol ar gyfer rhai arholiadau mewn cyfres arholiadau ac mae cydberthynas ystadegol sefydledig rhwng perfformiad mewn unedau, a defnyddir hyn i gyfrifo'r radd lawn. Mae'r cam hwn yn y broses yn creu set o ganlyniadau ar gyfer pob cymhwyster ym mhob canolfan. Yng ngham olaf y broses, mae'r set o ganlyniadau'n cael eu dyrannu i ddysgwyr yn ôl trefn restrol dysgwyr a gyflwynwyd gan ganolfannau. Mae hyn yn golygu bod y graddau terfynol a gyfrifir yn ystyried perfformiad blaenorol ar lefel UG, a dyfarniad athrawon mewn canolfan mewn perthynas â dysgwyr unigol.

Rydym wedi cymeradwyo'r dull hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru oherwydd bod canlyniadau yn ffynhonnell ddibynadwy o dystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol. Cadarnhaodd profion ar gywirdeb y dull hwn gan ddefnyddio data hanesyddol fod hwn yn ddull cywir, i un radd yn uwch neu'n is. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r dull a ddilynir i gyfrifo graddau Safon Uwch yn Lloegr, lle mae cymwysterau UG wedi eu datgysylltu o Safon Uwch.

Mae rhai achosion lle mae'r dull cyffredinol wedi'i addasu, oherwydd materion sy'n ymwneud ag argaeledd data. Nid oedd gan rai ymgeiswyr preifat y GACau na data trefn restrol a gyflwynwyd gan ganolfannau. Buom yn archwilio opsiynau ar gyfer y dysgwyr hyn a daethom i'r casgliad y byddem yn caniatáu i raddau gael eu cyfrifo gan ddefnyddio data cyrhaeddiad blaenorol lle bo'n bodoli. Amlinellir hyn yn ein datganiad polisi Ymgeiswyr Preifat. Fodd bynnag, erys nifer fach o ymgeiswyr preifat na ellid dyfarnu gradd iddynt yr haf hwn, a gallai hyn fod yn faes lle gallai penderfyniadau derbyn geisio ystyried ffurfiau amgen o dystiolaeth o allu. Mae UCAS wedi cyhoeddi arweiniad ar Gefnogi Ymgeiswyr ystod COVID-19. Mewn nifer fach o achosion, lle nad oes gan ganolfan unrhyw ddata UG, gweithredwyd y dull Perfformiad Canolfannau Uniongyrchol a ddefnyddir yn Lloegr.

I nodi, mae'r dull a ddefnyddir i gyfrifo graddau ar gyfer Safon Uwch yn seiliedig ar berfformiad mewn unedau UG, felly nid oes angen yr addasiad ar gyfer canolfannau bach a ddefnyddir yn y prif ddull safoni arall yr haf hwn.

UG – haf 2020

Ar lefel UG, rydym yn defnyddio'r un dull y mae Lloegr yn ei ddefnyddio ar gyfer pob TGAU, UG a Safon Uwch. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer UG yng Ngogledd Iwerddon. Dyma'r dull Perfformiad Canolfannau Uniongyrchol. Mae'r broses yn defnyddio perfformiad hanesyddol y ganolfan dros ddwy i dair blynedd i gyfrifo set o raddau ar gyfer y ganolfan. Yna caiff hyn ei addasu gan ddefnyddio data cymedrig TGAU i roi cyfrif am allu'r cohort presennol. Yna, caiff y graddau eu dyrannu i ddysgwyr yn ôl y drefn restrol a ddarperir, fel ar gyfer Safon Uwch.

TGAU – haf 2020

Defnyddiwyd cyfuniad o'r ddau ddull i ddyfarnu graddau ar gyfer TGAU yr haf hwn yng Nghymru. Ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU, defnyddiwyd dull Perfformiad Canolfan Uniongyrchol, wedi'i addasu i ystyried gallu'r cohort presennol trwy ddefnyddio tystiolaeth cyrhaeddiad blaenorol o brofion cenedlaethol ac asesiadau athrawon o Gyfnod Allweddol 3. Dangosodd y profi ar ddefnyddio'r data hwn ei fod yn gywir, i fod o fewn un radd yn uwch neu'n is.

Mae nifer o gymwysterau TGAU yng Nghymru yn rhai unedol ac felly mae tystiolaeth o unedau blaenorol y cymhwyster ar gael. Ar gyfer pynciau lle ceir tystiolaeth gyson o gyrhaeddiad blaenorol o unedau blaenorol cymhwyster ac mae'r unedau hyn yn ffurfio rhan sylweddol o'r cwrs, yna mae dull tebyg i'r un a ddefnyddir ar lefel Safon Uwch yng Nghymru wedi cael ei weithredu.

Safon Uwch – haf 2021

Mae lefel yr tarfu ar addysgu a dysgu wedi parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd 2019/20. Mae hyn wedi golygu bod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi colli cryn dipyn o amser addysgu a dysgu.

Pan wnaed penderfyniadau cychwynnol ar gyfrifo graddau ar gyfer yr haf hwn, sefydlwyd na fyddai angen i ddysgwyr yng Nghymru a fyddai'n cwblhau eu cyrsiau Safon Uwch yn 2021 sefyll eu harholiadau UG yn ystod haf 2021. Nodwyd y byddai'r Safon Uwch llawn yn cael ei gyfrifo ar sail perfformiad yn yr unedau U2 a gymerwyd yn ystod haf 2021. Byddai hyn yn debyg i'r broses ar gyfer cyfrifo Safon Uwch yr haf hwn ond gan ddefnyddio perfformiad unedau U2 yn hytrach na pherfformiad UG. Rydym yn ymwybodol bod rhai canolfannau yn cyflwyno Safon Uwch mewn modd llinol (mae'r holl arholiadau UG ac U2 yn cael eu sefyll ar ddiwedd y cwrs) ac felly gwnaethom ddarpariaeth hefyd y gallai dysgwyr sefyll yr unedau UG ac U2, pe dymunent.

Ers hynny, rydym wedi ystyried y gofynion ar gyfer gwneud rhai addasiadau i asesiadau U2 er mwyn cyfrif am yr amser a gollwyd mewn addysgu a dysgu. Gwnaethom nodi meini prawf lefel uchel a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried addasiadau priodol a fyddai'n bodloni'r meini prawf a osodwyd gennym. Mae CBAC wedi cynnig addasiadau i asesiadau haf 2021 er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Wrth wneud hynny, mae asesiadau rhai cymwysterau Safon Uwch wedi'u symleiddio. Mewn rhai achosion, mae'r cynnwys a asesir wedi'i symleiddio ac, mewn achosion eraill, mae'r asesiad diarholiad wedi'i addasu neu ei leihau. Bydd CBAC yn cyhoeddi'r addasiadau terfynol erbyn dechrau mis Medi.

Er y gallai'r addasiadau olygu bod yr asesiadau wedi'u symleiddio mewn rhai achosion, mae'r asesiadau Safon Uwch yn dal i fod yn gymaradwy â'r rhai a gymerwyd o'r blaen. Ni fydd unrhyw gynnwys yr ystyrir ei fod yn hanfodol ar gyfer dilyniant yn cael ei symleiddio ac erys cydbwysedd tebyg o ran sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae lefel gofynion asesiadau Safon Uwch yn dal i fod yn gymaradwy â'r rhai a gymerwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Canlyniadau

Fel yr amlinellwyd, disgwyliwn i ganlyniadau cenedlaethol mewn TGAU, UG a Safon Uwch fod yn weddol debyg i flynyddoedd blaenorol. Er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais, bydd y dull yn gadarnhaol, ond bydd yn cael ei gydbwyso gan yr angen i sicrhau tegwch i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, ac i beidio â thanseilio hyder yn y cymwysterau.

Gall darparwyr addysg uwch fod â hyder yng nghanlyniadau'r haf hwn a'u trin fel rhai sydd â'r un gwerth ag yn y blynyddoedd blaenorol.

Ni all canolfannau rannu GACau dysgwyr gyda nhw tan ar ôl i'r canlyniadau gael eu rhyddhau. Os caiff GACau eu rhannu gyda chi, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad dyma o reidrwydd fydd gradd derfynol, gyfrifedig unrhyw ddysgwyr.

Yng Nghymru, ni fydd cyfres arbennig yn yr hydref, felly bydd angen i ddysgwyr sy'n dymuno ailsefyll arholiadau aros tan haf 2021. Fodd bynnag, bwriedir i'r gyfres a drefnwyd ym mis Tachwedd lle gall dysgwyr sefyll arholiadau TGAU mewn Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith fynd ymlaen fel arfer yng Nghymru.

Apeliadau

Gall canolfannau apelio i CBAC ar ran y dysgwyr, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, ni fydd modd cyflwyno apeliadau ond ar y sail bod y ganolfan ei hun wedi gwneud camgymeriad wrth gyflwyno gradd asesu'r ganolfan neu wybodaeth trefn restrol i CBAC, neu mae'n credu i CBAC wneud camgymeriad wrth gyfrifo, dyrannu neu gyfleu gradd. Pan nodir gwallau yn ystod y cam adolygu cychwynnol, byddant yn cael eu cywiro'n gyflym. Os bydd y ganolfan yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn canlyniad yr adolygiad cychwynnol, byddant yn gallu gofyn am adolygiad annibynnol.

Fel yn ystod hafau arferol, rydym yn cynnig cam apêl terfynol, y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi, i wirio bod CBAC wedi cydymffurfio â'n gofynion a'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain, ac wedi cywiro unrhyw wall a ganfuwyd yn gywir.

Nid yw dysgwyr yn gallu apelio ar y sail eu bod yn anhapus â'r dyfarniadau proffesiynol a wneir yn y ganolfan i benderfynu ar eu Gradd Asesu Canolfan neu eu Trefn Restrol. Os ydynt yn pryderu y gallai penderfyniadau'r ganolfan fod wedi cael eu heffeithio gan ragfarn neu wahaniaethu, neu fod y ganolfan wedi methu ag ystyried addasiadau rhesymol y byddent wedi'u cael pe bai arholiadau wedi cael eu cynnal, dylent ddilyn proses gwyno fewnol y ganolfan. Gellir rhoi gwybod i CBAC am dystiolaeth gredadwy o ragfarn neu gamwahaniaethu neu fethiant i ystyried addasiadau rhesymol er mwyn ymchwilio i gamymddwyn neu gamweinyddu posibl. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad ar lefel genedlaethol yn ymddangos yn gymedrol, ond dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn AU fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer rhagfarn.

Mae prosesau'r haf hwn wedi'u datblygu i ymateb i amgylchiadau unigryw eleni. Mae canlyniadau eleni ar lefel genedlaethol yn debyg yn fras i flynyddoedd blaenorol. Datblygwyd y broses i fod mor deg â phosibl ond mae'n anochel bod rhai cyfyngiadau ar y dulliau ystadegol a ddefnyddir. Yn wahanol i flynyddoedd arferol, nid yw'r dysgwyr wedi

gallu dangos perfformiad mewn arholiadau terfynol ac rydym ni'n gwybod y gallai rhai dysgwyr fod wedi ennill graddau gwahanol pe bydden nhw wedi gallu sefyll yr arholiadau. Rydym yn eich annog i gynnig cymaint o hyblygrwydd yn eich prosesau derbyn ag y gallwch, er mwyn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i'r cyrsiau a gynigir gennych.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o wybodaeth i brifysgolion gadw golwg arno, felly byddwn yn parhau i ddiweddaru ein gwefan gyda gwybodaeth sy'n gysylltiedig â haf 2021 yng Nghymru. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol i chi ei chael yn y dyfodol, cysylltwch ag enquiries@qualificationswales.org.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr